Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 5/3/18 News

Eira / Snow

Yn anffodus bu raid cau yr ysgol am dri diwrnod yr wythnos diwethaf a chanslo'r bws o Glocaenog I Gyffyllog. Ymddiheuriadau am unrhyw anghyfleustra achosodd hyn. Nid ydym yn hoffi cau yr ysgol na chanslo'r bws ond rhaid cadw pawb yn ddiogel ac nid oedd dewis yr wythnos diwethaf oherwydd y tywydd gaeafol. Gobeithio na dyna fydd diwedd yr eira a rhew am eleni! *Unfortunately we had to close the school for three days last week and also cancel the bus from Clocaenog to Cyffylliog. Apologies for any inconvenience this caused. We do not like to close the school or cancel the bus but we do need to ensure everyone's safety and we had no choice last week because of the wintery weather. Let's hope we've seen the last of the snow and ice for this year.*

Cogurdd

Bydd cystadleuaeth Cogurdd yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Cae Cymro Clawddnewydd **pnawn lau** am 4pm. Bydd angen mynd a'r plant yno erbyn tua 3.45pm er mwyn iddynt baratoi eu hunain. Byddant wedi gorffen erbyn 5.45pm. Bydd Mr Eryl Williams yn beirniadu eto eleni. Yn anffodus nid oes gennym ddigon o le i gynnal y gystadleuaeth yn yr ysgol oherwydd y nifer fawr o blant sydd am gystadlu eleni. Gadewch i ni wybod cyn gynted a phosib os ydy eich plentyn wedi penderfynnu peidio cystadlu. *The Cogurdd Competition will take place at 4pm in Canolfan Cae Cymro Clawddnewydd on **Thursday**. You will need to take the children there by around 3.45pm so that they can prepare for the competition. They should be finished by 5.45pm. Mr Eryl Williams will be judging again this year. Unfortunately we cannot hold this competition at school because of the high number of children wanting to compete this year. Please let us know as soon as possible if your child has decided not to compete.*

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary

6/3/18 Clwb yr Urdd CA2 / *KS2 Urdd Club*
8/3/18 Bl 1 a 2 Clwb Celf yr Urdd *Craft Club Yr 1 & 2* – **Grwp 2**
8/3/17 COGURDD Canolfan Cae Cymro Clawddnewydd 4pm
13/3/18 CA2 Drama Wy, Chips a Nain *Play KS2* Theatr y Pafiliwn Y Rhyl – bore.
13/3/18 Clwb yr Urdd CA2 / *KS2 Urdd Club*
15/3/18 Bl 3 a 4 – Ymweliad a *Brenig Visit Yr 3 & 4* ***angen BRECHDANNAU / PACKED LUNCH needed***.
16/3/18 Bingo Pasg Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Bingo* Canolfan Cae Cymro
17/3/18 Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych / *Denbighshire Urdd Eisteddfod* – Rhuthun
19/3/18 Noson Rieni CA2 / KS2 Parents Evening – Clocaenog
20/3/18 Diwrnod y Ddraig / Welsh Language Charter Day Sioe Hedd Wyn Show – pm.
20/3/18 Traws Gwlad Dyffryn Clwyd I CA2/ Vale of Clwyd Cross Country for KS2 4pm Llanfwrog.
20/3/18 Noson Rieni CS / FPh Parents Evening – Cyffylliog
21/3/18 Noson Rieni ychwanegol CS / Additional FPh Parents Evening – Cyffylliog
22/3/18 Eisteddfod Ddawns yr Urdd Sir Ddinbych/ Denbighshire County 4pm.
23/3/18 Diwrnod *Sports Relief Day*
23/3/18 Cyngerdd Capel Bontuchel Chapel Concert – 7pm
23/3/18 Cau dros y Pasg / *Close for Easter Holiday.*
9/4/18 Diwrnod HMS. Staff Training Day
10/4/18 Cystadleuaeth Celf a Chrefft Cylch yr Urdd / *Area Urdd Arts and Craft Competition*
11/4/18 Cystadleuaeth Celf a Chrefft Sir yr Urdd/*County Urdd Arts and Craft Competition.* Mart Rhuthun *Cattle Market.*
12/4/18 Arddangosfa o enillwyr Celf a Chrefft Sir Ddinbych / Exhibition of Denbighshire Urdd Arts and Crafts winners. Mart Rhuthun *Cattle Market.*
Urdd Dance Eisteddfod. Ysgol Brynhyfryd

Bingo Pasg / *Easter Bingo*

Mae Cyfeillion yr Ysgol yn trefnu Bingo Pasg nos Wener Mawrth 16eg am 6.30pm yng Nghanolfan Cae Cymro. Maent yn gofyn yn garedig i bob teulu gyfrannu Wy Pasg fel gwobr. Gofynnwn i chi ddod a'r wyau Pasg i'r ysgol erbyn **Dydd Gwener**. *The Friends of the School are organising an Easter Bingo on Friday March 16th at 6.30pm at Canolfan Cae Cymro. They kindly ask that every family donate an Easter Egg as a prize. Could you please send the eggs in by* ***Friday.***

Wythnos y Ddraig

Yn anffodus daeth yr eira yn ystod Wythnos y Ddraig. Ond fe fu'r plant yn dysgu am raglenni Cymraeg S4C yn ystod yr wythnos yn ogystal a dawnsio i ganeuon Cymraeg a dysgu am bencampwyr chwaraeon Cymraeg yn y gwersi Addysg Gorfforol. Buom yn lwcus iawn o gael ymweliad gan Erfyl Owen a'r band Ceidwad y Gan fore Mercher cyn iddynt gystadlu yng nghystadleuaeth Cân i Gymru ar y nos Iau. Llongyfachiadau mawr iddyn nhw am ennill y gystadleuaeth! Byddwn yn cael DIWRNOD Y DDRAIG **Dydd Mawrth Mawrth 20** ac fe fydd y plant yn cael dod i'r ysgol mewn gwisg Gymreig neu wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr Cymraeg. Bydd y plant yn cael dod at eu gilydd i Ganolfan Cae Cymro yn y prynhawn i weld Sioe Hedd Wyn. Gobeithio y bydd y gweithgareddau yn ennyn diddordeb y plant mewn cerddoriaeth, teledu a thechnoleg Cymraeg a chreu balchder ynddynt eu bod yn medru siarad Cymraeg ac yn byw mewn gwlad ddwyieithog. *Unfortunately the snow came during the Welsh Charter Week, but the children had an opportunity to learn about Welsh language TV programmes and music during the week. In the PE lessons they learnt about Welsh speaking sports champions and danced to Welsh songs. We were lucky to get a visit from the band Ceidwad y Gân on Wednesday morning before they competed in the Song for Wales competition on Thursday. Congratulations to them for winning the competition! We will now be having a Welsh Language Charter Day on* ***Tuesday March 20*** *and everyone can come in dressed in Welsh costume or dressed as a character from a Welsh book. The children will all go to see the show Hedd Wyn at Canolfan Cae Cymro in the afternoon. We hope that we will have kindled the interest of children in Welsh music, TV and technology and made them proud to be able to speak Welsh and to be living in a bilingual country.*

Cyngerdd Capel Bontuchel Chapel Concert

Mae'r cyngerdd wedi cael ei ail drefnu at nos Wener Mawrth 23ain. *The concert has been rearranged for Friday March 23rd.*

Eisteddfod Dawns yr Urdd

Roedd Meleri a Siwan i fod i gystadlu yn Eisteddfod Ddawns Cylch Rhuthun yn Ysgol Brynhyfryd pnawn Mercher ond cafodd ei ganslo oherwydd y tywydd. Byddant nawr yn mynd syth ymlaen i'r Eisteddfod Sir yn y gystadleuaeth clocsio. Pob lwc iddyn nhw. *Meleri and Siwan should have been competing in the Ruthin Area Urdd Dance Eisteddfod at Ysgol Brynhyfryd last Wednesday afternoon but it s cancelled due to the weather. They will now go straight through to the County Eisteddfod in the clog dancing competition. Good luck to them.*

Drama Wy Chips a Nain Play

Bydd plant CA2 yn mynd i weld drama Wy, Chips a Nain gan Gwmni Y Fran Wen fore Mawrth nesaf yn Theatr Y Pafiliwn Y Rhyl. '**Stori deuluol a gwirioneddol hyfryd am ddementia drwy lygaid plentyn. Wedi ei ysgrifennu gan Gwyneth Glyn, mae Ŵy, Chips a Nain yn ddarlun gonest o bwysigrwydd cariad, cyfeillgarwch a hwyl rhwng dwy genhedlaeth wrth wynebu bywyd gyda dementia**' Bydd y ddrama yn cydfynd a thasg arbennig y Llysgenhadon Gwych y tymor yma sef pontio'r cenedlaethau. Gofynnwn am gyfraniad o £2 tuag at y gost. Gobeithiwn gael grant gan Gyngor y Celfyddydau i dalu gweddill y gost. *KS2 children will be going to see a play in Rhyl next Tuesday morning -* ***'A heart-warming family tale about dementia through the eyes of a child. Written by Gwyneth Glyn, Ŵy, Chips a Nain (Egg, Chips & Grandma) is an honest portrayal of love, friendship and fun between two generations when facing life with dementia.'*** *The play fits in well with the Super Ambassadors' special task this term to bridge the generations. We ask for a contribution of £2 towards the cost of the trip. We hope to get a grant from The Welsh Arts Council to pay the rest of the cost.*

Eisteddfod yr Urdd Cylch Rhuthun